# *GWASANAETH TÂN GOGLEDD CYMRU*

## DATGANIAD CYFRIFON 2007-2008

# CYNNWYS


| | RHIF TUD. |
|---|---|
| Rhagair Esboniadol gan y Trysorydd | 1-4 |
| Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon | 5 |
| Datganiad ar y System Rheolaeth Fewnol | 6-9 |
| Datganiad Polisïau Cyfrifyddu | 10-13 |
| Datganiadau Ariannol Craidd | 14-17 |
| Nodiadau'r Datganiadau Ariannol Craidd | 18-33 |
| Cyfri'r Gronfa Bensiwn gyda nodiadau | 34 |
| Adroddiad Archwiliwr Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 35-36 |

# RHAGAIR ESBONIADOL

1. Yn 2004 paratôdd WAG Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol, sy'n darparu canllawiau gweithredol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw ceisio ehangu rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru o safbwynt atal, addysgu ac ymwneud â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu gan sicrhau'r un pryd na chyfaddawdir ar eu gallu i ymladd tân.

   Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru'n paratoi cynlluniau gweithredu blynyddol er mwyn lleihau'r risgiau gyda phwyslais cynyddol ar atal ac addysgu. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithio'n weithgar gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, enghraifft o hyn yw'r cynllun cyfalaf parhaus i droi Gorsaf Dân y Rhyl yn Orsaf Dân Gymunedol, prosiect a ariannwyd yn rhannol gan WAG. Mae'r Awdurdod Tân hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau brys eraill, er enghraifft rheolir y portffolio eiddo gan Adran Rheoli Cyfleusterau ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru, a bydd Swyddfa Reoli'r Gwasanaeth Tân yn symud i adeilad a rennir â'r Heddlu yn Llanelwy.

   Mae Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad a orchmynnir gan y gyfraith; a'i bwrpas yn bennaf yw darparu gwybodaeth glir ynghylch sefyllfa a pherfformiad ariannol Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-08. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2007 mae bellach yn ofynnol i gynnwys datganiadau ar gyfer y gronfa bensiwn yn ymwneud â phensiynau ymladdwyr tân ar y Datganiad Cyfrifon. Yn unol ag Arfer Cyfrifeg Cyffredinol Derbyniol y DU (GAAP) mae rhai newidiadau wedi bod i bolisïau cyfrifeg ar gyfer 2007-08 gyda chyflwyno Safon Adrodd Ariannol (FRS) 25, FRS26 ac FRS29, sy'n cyfrifo am Offerynnau Ariannol. Yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) mae rhai newidiadau cyfrifo wedi bod i'r ffordd yr ymdrinnir â chyllido ac ailbrisio Asedau Sefydlog, mae'r Cyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog (FARA) a'r Cyfrif Cyllido Cyfalaf (CFA) wedi eu disodli gan y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2(a). Mae'r datganiadau a'u pwrpas fel a ganlyn:-

(i) **Datganiad Polisïau Cyfrifyddu**
Mae hwn yn amlinellu'r egwyddorion a'r polisïau sy'n sail i gyfrifon y Gwasanaeth Tân.

(ii) **Cyfrif Incwm a Gwariant**
Mae hwn yn crynhoi'r adnoddau a gafwyd ac a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod yn y flwyddyn.

(iii) **Datganiad y Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol**
Cysoniad sy'n dangos y cysylltiad rhwng y balans o adnoddau a gafwyd ac a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn â'r cyfraniadau gan yr awdurdodau sy'n aelodau.

(iv) **Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion a Gydnabyddir**
Mae hwn yn dangos y cysylltiad rhwng y symudiad yng ngwerth net y fantolen â diffyg y Cyfrif Incwm a Gwariant ac enillion a cholledion eraill a gydnabyddir.

(v) **Mantolen**
Mae'r Fantolen yn disgrifio sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Tân.

(vi) **<u>Datganiad Llif Arian</u>**
Mae'r datganiad cyfunol hwn yn crynhoi'r llif arian mewnol ac allanol sy'n codi o'r trafodion â thrydydd parti i bwrpas refeniw a chyfalaf.

**(vii) <u>Y Cyfrif Cronfa Bensiwn</u>**
O 1 Ebrill 2007 mae'r trefniadau sy'n ymwneud â chynlluniau Pensiwn Ymladdwyr Tân yng Nghymru wedi newid. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gadw Cyfrif Incwm a Gwariant ar wahân a Datganiad Asedau Net ar gyfer yr holl drafodion hyn.

(viii) **<u>Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon</u>**
Mae hwn yn dangos cyfrifoldebau Trysorydd a Chadeirydd yr Awdurdod Tân ynglŷn â'r Datganiad Cyfrifon.

2(b). Mae nodiadau sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol ar y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad y Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol, y Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion a Gydnabyddir, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r Cyfrif Cronfa Bensiwn. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn ateb gofynion Cod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain (2007) a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (2007) a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a'r Diwygiadau i'r Rheoliadau yn 2007.

3. **<u>CRYNODEB O'R FLWYDDYN ARIANNOL 2007-2008</u>**

(i) **<u>Gwariant Refeniw 2007-2008</u>**

Cymeradwywyd cyllideb o £29,456,445 ar gyfer y flwyddyn gan Aelodau'r Awdurdod Tân. Roedd y gwariant gwirioneddol fymryn yn is na'r hyn y cyllidwyd amdano ac roedd yr Awdurdod wedi tanwario o £1,883. Roedd y Canlyniad Dros Dro diwethaf a gyflwynwyd i Aelodau ym mis Mawrth yn amcangyfrif y byddai tanwariant o £23,121 ac argymhellwyd y dylid ystyried defnyddio'r tanwariant i gyllido gwaith Diogelwch Tân yn y Gymuned. Fodd bynnag, ers yr adroddiad diwethaf mae'r Prosiect Swyddfa Reoli (trosglwyddo'r Swyddfa Reoli o'r Rhyl i Lanelwy) wedi wynebu rhai costau ychwanegol ar gyfer ffioedd ymgynghorwyr dros yr hyn a neilltuwyd yn y Ddarpariaeth Rheoli a chredir y byddai'n ddarbodus i osod y tanwariant yn erbyn y costau hynny. Mae'r tabl isod yn dangos y prif feysydd lle bu gorwario, a'r tanwario a ddefnyddiwyd yn eu herbyn.

| ***Gorwario*** | ***£'000*** | ***Tanwario*** | ***£'000*** |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 40 | Yswiriant | 44 |
| Costau Adeiladau | 138 | Y Llog sy'n Daladwy | 123 |
| Costau Cludiant | 69 | Ad-dalu Dyled (MRP) | 122 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 30 | Costau Gweithredu Rheolaeth | 85 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau Arall | 59 | Newydd | |
| Trydydd Parti | 132 | Cynllunio rhag Argyfwng | 72 |
| Incwm Buddsoddiadau (diffyg) | 27 | Incwm Ychwanegol | 33 |
| | | Incwm Ychwanegol Arall | 18 |
| | | Trwyddedau Hydrant | |
| Cyfanswm | 495 | | 497 |
| **Tanwariant Net** | | | **2** |

(ii) **Gwariant Cyfalaf 2007-2008**

Yn ystod y flwyddyn gwariodd yr Awdurdod £3,905,723 ar brosiectau cyfalaf fel a ganlyn:-

| | £ |
|---|---|
| **Adeiladau** | |
| Ailfodelu Harlech | 237,271 |
| Adeilad Newydd Wrecsam | 10,265 |
| Ailfodelu Llandudno | 20,398 |
| Ailfodelu Biwmares | 73,310 |
| Ailfodelu Llanberis | 168,403 |
| Ailfodelu Llanrwst | 4,435 |
| Ailfodelu y Fflint | 13,445 |
| Ailfodelu y Rhyl | 867,674 |
| Ailfodelu Nefyn | 7,724 |
| Ailfodelu y Waun | 9,757 |
| Ailfodelu Bwcle | 16,584 |
| Mân Waith Adeiladu | 101,979 |
| Gosodiadau Hydrant | 172 |
| **Cerbydau ac Offer** | |
| Tendrau Dŵr | 1,008,312 |
| Cerbydau Ysgafn | 312,432 |
| Offer Erial | 273,865 |
| Cerbyd Hyfforddi Gyrwyr | 103,618 |
| Uwchraddio Cerbydau | 22,480 |
| Offer Peiriannau | 6,304 |
| Offer Arall | 233,223 |
| Offer Rheoli a Firelink | 414,072 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **3,905,723** |

Cafwyd gwariant llai nag a ragwelwyd yn rhaglen gyfalaf 2007-2008 oherwydd llithriad ar nifer o'r prosiectau adeiladu ac oedi o safbwynt y rhaglen newid cerbydau, ac yn arbennig o safbwynt Offer Erial ac Uwchraddio Cerbydau. Bydd y cynlluniau hyn sydd werth oddeutu £1.7m, yn cael eu trosglwyddo i 2008-2009.

Dan y Cod Darbodus, gall yr Awdurdod yn unol â pha bynnag ddull ariannu sydd fwyaf cost effeithiol ariannu'r rhaglen gyfalaf.
Yn 2007-2008 ariannwyd y rhaglen gyfalaf yn bennaf drwy fenthyciadau gan Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (£2,778,628), grantiau (£812,067) a Derbyniadau Cyfalaf (£315,028).

(iii) **Mantolen 2007-2008**

Pennir oes ased i'r holl adeiladau, cerbydau ac offer sy'n eiddo i'r Awdurdod Tân, a chânt eu dibrisio ar sail yr oes ddisgwyliedig honno; dangosir hyn yn Nodyn 11 yn y Datganiadau Ariannol Craidd. Mae'r cynnydd mewn benthyca yn dibynnu ar nifer o ffactorau; swm y gwariant cyfalaf i'w ariannu trwy fenthyca a'r ddyled fenthyca i'w had-dalu fel rhan o'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Dyled fenthyca'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2008 oedd £11.51m.

Cyflwynwyd FRS17 er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu gwerth teg yr asedau a'r ymrwymiadau sy'n codi o

oblygiadau budd-daliadau ymddeol cyflogwr ac unrhyw gyllid cysylltiedig. Daw holl gostau presennol y gwasanaeth o'r cyfrif refeniw a chofnodir hynny yn y Fantolen er mwyn adlewyrchu ymrwymiadau pensiwn yr Awdurdod. Yr amcangyfrif o ran ymrwymiadau pensiwn ar gyfer Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2008 oedd £150.62m, gostyngiad o £21.01m. Mae'r gostyngiad hwn yn digwydd yn bennaf yn sgil y newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n waelodol i werth presennol ymrwymiadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân. Eglurir hyn ymhellach yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

(iv) **Llif Arian**

Caiff yr Awdurdod Tân ei gyllido gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol sy'n aelodau. Derbynnir y cyfraniadau'n fisol ac fe'u defnyddir i ariannu gwariant.

(v) **Darpariaethau ac Ymrwymiadau**

Mae gan yr Awdurdod nifer o ymrwymiadau er mwyn bodloni ymrwymiadau'r dyfodol y gwyddys amdanynt wrth iddynt godi. Y balans ar ddechrau'r flwyddyn oedd £0.94m ac ar ddiwedd y flwyddyn £0.81m. Y balans ar y ddarpariaeth fwyaf, y Ddarpariaeth Bensiwn, ar 31 Mawrth 2008 yw £0.46m, gostyngiad o £0.13m, a defnyddiwyd i ariannu'r taliad Iechyd Gwael ar gyfer y blynyddoedd blaenorol dan y trefniadau ariannu newydd ar gyfer y cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân. Defnyddiwyd darpariaethau eraill yn unol â'r pwrpas y clustnodwyd hwnnw ar eu cyfer. Mae mwy o fanylion am y darpariaethau wedi'u cynnwys mewn nodyn ar y datganiadau ariannol craidd.

(vi) **Costau Ariannu Cyfalaf**

Y tâl a godwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth er mwyn adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd wrth ddarparu'r gwasanaeth oedd £967,850. Tâl tybiannol yw hwn ar gyfer dibrisio a gwneir addasiad i'r balans diwedd blwyddyn fel na effeithir ar y cyfraniadau sydd eu hangen i ariannu'r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i'r gwasanaeth am ariannu cyfalaf yw £453,895 am log ar fenthyciad a Darpariaeth Isafswm Refeniw a Darpariaeth Refeniw Gwirfoddol o £705,323.

## 4. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Drysorydd yr Awdurdod Tân, Bodlondeb, Conwy. Hefyd, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yr hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Rhoddir gwybod bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio trwy'r wasg leol ac ar wefannau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (www.gwastan-gogcymru.org.uk) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (www.conwy.gov.uk
.

**K W FINCH** CPFA *IRRV*
***Trysorydd i'r Awdurdod Tân***

# DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD CYFRIFON

**CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd;

- reoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.

- cymeradwyo y Datganiad Cyfrifon

**TYSTYSGRIF Y CADEIRYDD**
**DATGANIAD CYFRIFON 2007/2008**

Cymeradwywyd cyfrifon heb eu harchwilio dros dro yng nghyfarfod Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 16 Mehefin 2008 o dan oruchwyliaeth Cadeirydd yr Awdurdod Tân.

ARWYDDWYD:________________________________________ DYDDIAD:_____________

***Cadeirydd, Awdurdod Tân Gogledd Cymru***

**CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD**

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifyddu'r Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig ( y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP)). Mae'n ofynnol i'r Datganiad Cyfrifyddu gyflwyno'n deg sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008.

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu defnyddio gyda chysondeb;

- llunio barnau ac amcangyfrifon oedd yn rhesymol a doeth;

- cydymffurfio â'r SORP awdurdod lleol.

Mae'r Trysorydd hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfamserol;

- cymryd camau rhesymol er mwyn atal neu ddarganfod twyll neu weithredoedd afreolaidd eraill.

**TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD**
**DATGANIAD CYFRIFON 2007/2008**

Paratowyd Datganiad Cyfrifon yn unol â Rheolau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2005 a'r Diwygiadau i'r Rheoliadau yn 2007.

ARWYDDWYD :________________________________DYDDIAD:_____________________

**K W FINCH** CPFA IRRV
***Trysorydd i'r Awdurdod Tân***

# DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau y rheolir ei fusnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n briodol, a'i ddefnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaol yn y ffordd mae ei swyddogaethau yn cael eu hymarfer, gydag ystyriaeth i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau yma, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod system ddigonol o reoli mewnol sy'n hwyluso ymarfer effeithlon ei swyddogaethau ac sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg.

**Diben y System o Reolaeth Fewnol**
Cynllunnir y system o reoli mewnol i reoli risg hyd lefel rhesymol yn hytrach nag i ddiddymu'r holl risgiau o fethu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, mae'n gallu rhoi sicrwydd rhesymol o effeithlonrwydd yn unig. Cynllunnir system o reoli mewnol yr Awdurdod i:

- adnabod a blaenoriaethu gweithredoedd i roi sylw i'r risgiau i'r cyflawniad o bolisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod;
- werthuso'r tebygolrwydd o sylweddoli'r risgiau hynny;
- werthuso'r effaith os sylweddolir y risgiau hynny; a'u
- rheoli hwy'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae system o reoli mewnol wedi bod yn ei le o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 a hyd ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac yn unol ag arfer da. Fodd bynnag, nid yw'r system yn statig a gwneir gwelliannau yn ystod y flwyddyn.

**Yr amgylchedd rheoli mewnol**
Mae amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod yn cynnwys y nifer o systemau, polisïau, gweithdrefnau a gweithrediadau sydd yn eu lle i:

- sefydlu a monitro'r cyflawniad o amcanion allweddol yr Awdurdod;
- hwyluso gwneud polisïau a phenderfyniadau;
- sicrhau cydymffurfiad gyda pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig;
- adnabod, asesu a rheoli'r risgiau yn unol ag amcanion yr Awdurdod yn cynnwys rheoli risg;
- sicrhau defnydd economaidd ac effeithiol o adnoddau, ac i sicrhau gwelliannau parhaol yn y ffordd mae swyddogaethau'r Awdurdod yn cael eu hymarfer, gydag ystyriaeth i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel sy'n ofynnol gan y ddyletswydd Gwerth Gorau;
- ddarparu rheolaeth gyllidol briodol yr Awdurdod a rhoi gwybod am reolaeth gyllidol; a
- sicrhau rheoli perfformio digonol yr Awdurdod a rhoi gwybod am reoli perfformiad.

**Rheolaeth Gyllidol**
Rydym ni wedi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau fod ein rheolaeth gyllidol yn gadarn ac yn addas i'r pwrpas. Mae'r trefniadau yma'n cynnwys:

- Gwahaniad clir o gyfrifoldebau rhwng ein swyddogaeth cyfrifyddu rheoli, ymgymerir ag ef yn y Pencadlys, a'n trefniadau cyfrifyddu ariannol, ymgymerir â hwy drwy ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan Gyngor Sir Conwy;

- Mae'r Awdurdod yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cyllid yn flynyddol, sydd wedi cael ei datblygu a'i hysbysu gan swyddogion, mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Adrannau;
- Mae'r Awdurdod yn derbyn adroddiadau monitro cyllid chwarterol, ac mae'r Grŵp Gweithredol yn adolygu'r cyllid yn fanwl pob 6 wythnos;
- Rydym ni wedi datblygu rhaglen cyfalaf tair blynedd, sy'n ein galluogi ni i gael ymagwedd tymor byr, tymor canolig a thymor hir i gynllunio cyfalaf;
- Rydym ni wedi mabwysiadu rhagolwg cyllidol tair blynedd sy'n cael ei ystyried yn ein proses cynllunio gwasanaeth;
- Mae'r Awdurdod yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Polisi Rheoli'r Trysorlys, a'n hanghenion benthyca'n flynyddol;
- Mae gennym ni Gytundebau Lefel Gwasanaeth effeithiol gyda Chynghorau Sir y Fflint a Chonwy ar gyfer rheoli pensiynau a gwasanaethau cyfrifeg, gan ddarparu gwybodaeth dechnegol arbenigol i'r Awdurdod;
- Rydym ni'n adolygu ein rheoliadau cyllidol a rheolau sefydlog yn amserol;
- Ymgymerir â chyfrifoldebau cyllidol yr Awdurdod gan bersonél sydd wedi eu hyfforddi'n gymwys a phrofiadol, ac mae gan staff linellau goruchwylio ac adrodd clir;

**Rheoli Perfformiad**
Rydym ni wedi ymrwymo i ddatblygu ein fframwaith rheoli perfformiad yn barhaol ac wedi gweithredu cydrannau pwysig ein fframwaith. Rydym ni'n sylweddoli fod hwn yn ardal sy'n datblygu drwy'r adeg ac rydym ni'n hyderus o barhau i wneud cynnydd yn yr ardal yma. Rydym ni wedi sefydlu'r canlynol eisoes:

- Rydym ni'n amlinellu ein hamcanion a chynigion strategol er mwyn cyflawni'r rhain yn ein Cynllun Lleihau Risg yn flynyddol. Rydym ni'n dilyn ein cynnydd yn yr ardaloedd hyn drwy'r flwyddyn, gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol a'r Panel Gweithredol;
- Rydym ni'n parhau i gasglu a monitro ein cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau, yn benodol y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Dangosyddion Strategol Craidd fel y bo'n ofynnol gan LCC;
- gan osod targedau wedi'u hymestyn yn erbyn y rhain yn flynyddol. Rydym ni'n paratoi adroddiadau bob chwe wythnos sy'n adlewyrchu cynnydd yn erbyn y rhain ar gyfer y Fforwm Lleihau Risg, ac adroddiadau chwarterol i'r Panel Gweithredol;
- Rydym ni'n meincnodi ein perfformiad yn flynyddol yn erbyn ein 'grŵp teulu' o wasanaethau tân ac achub, ac yn eu cyhoeddi yn ein Cynllun Gwella;
- Rydym ni wedi cyflwyno trefniadau i baratoi cynlluniau adrannol a sirol sy'n caniatáu i'n nodau ac amcanion dreiddio trwy'r gwasanaeth. Rydym ni'n monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn pob chwe wythnos drwy'r Fforwm Lleihau Risg;
- Rydym wedi datblygu amcanion adrannol a thargedau sy'n cael eu monitro yn ogystal â'u goblygiadau ariannol bob chwarter;
- Rydym wedi cwblhau'r ail flwyddyn o 'sicrwydd gweithredol' a seiliwyd ar thema paratoi am argyfyngau mawr. Mae wedi'i adolygu gan dîm cymheiriaid o'r ddau wasanaeth tân ac achub Cymreig arall. Byddwn ni'n cymryd gweithredoedd sy'n codi o'r adolygiad yma ymlaen, o fewn y gwasanaeth, a hefyd ar y cyd gyda'r ddau wasanaeth tân ac achub arall;
- Rydym wedi ymrwymo bellach i gyflwyno system rheoli perfformiad Cymru Gyfan Ffynnon, er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'n adnoddau.

**Llywodraethu Corfforaethol**
Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o ymddygiad i'w aelodau a staff. Rydym ni wedi rhoi trefniadau yn eu lle i gynnal a monitro'r safonau yma, yn cynnwys;

- Mae gennym ni gynllun o ddirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau o'r Awdurdod i'r Prif Swyddog Tân;
- Mae Cylch Gorchwyl wedi cael eu cyflwyno, yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo i'r Awdurdod, Panel Gweithredol a Phwyllgor Safonau, sy'n amlinellu pwerau eu cylch gwaith a'u pwerau gwneud penderfyniadau;

- Rydym ni wedi adolygu a diwygio ein strwythur llywodraethu corfforaethol. Mae'r Awdurdod wedi ei gyfansoddi o aelodau o bob un o'r chwe awdurdod cyfansoddiadol ac yn gyfrifol am gyfeiriad strategol y gwasanaeth. Sefydlwyd Panel Gweithredol sy'n galluogi archwilio polisïau yn gynharach gan banel o bedwar aelod ar ddeg, wedi eu dewis yn gyfartal o bob awdurdod lleol.
- Gellir ystyried polisi penodol drwy weithgorau yr ydym ni'n eu cyfansoddi am reswm penodol, er enghraifft, datblygu ein Cynllun Lleihau Risg;
- Mae Pwyllgor Safonau, sydd wedi ei gadeirio gan aelod annibynnol yn gyfrifol am archwilio materion ymddygiad sy'n ymwneud ag aelodau o'r Awdurdod;
- Mae tîm uwch reolwyr newydd yn cael ei ddatblygu. Bydd y Grŵp Gweithredol yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, un Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a dau Brif Swyddog Cynorthwyol. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwe wythnos, ac mae eitemau sefydlog ar yr agenda, yn cynnwys rheoli perfformiad, risg a chyllid;
- Mae adolygiad o drefniadau Caffael ac ymrwymiad Aelodau wedi'i gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae disgwyl iddynt adrodd ar sail ranbarthol a Chymru Gyfan. Byddwn yn symud ymlaen â'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**Rheoli Risg**

Yn y gorffennol, rydym ni wedi cydnabod yr angen i ddatblygu dull yn seiliedig ar risg fwy integredig i gryfhau ein trefniadau cynllunio cyllidol a gwasanaeth, a fyddai wedyn yn cryfhau ein trefniadau rholi mewnol cyfan. Rydym ni'n cydnabod fod gennym ni dipyn o ffordd i fynd i gryfhau ein trefniadau rheoli risg corfforaethol o fewn y gwasanaeth, ond maent wedi symud ymlaen ers 2007 drwy:

- Rydym wedi cyhoeddi polisi Rheoli Risg corfforaethol;
- Mae'r polisi a'r cynllun Rheoli Risg wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân a fydd yn adolygu datblygiadau'n flynyddol;
- Mae'r Grŵp Gweithredol wedi datblygu cofrestr risg gorfforaethol lefel uchel.
- Drwy weithio ar y cyd gyda Phenaethiaid Adran, rydym ni wedi paratoi cofnod risg corfforaethol cynhwysfawr ac wedi'i adolygu;
- Mae'r Fforwm Lleihau Risg yn gyfrifol am fonitro, diweddaru a rheoli'r Cofnod Risg ym mhob un o'i gyfarfodydd pob chwe wythnos;
- Rydym ni'n paratoi Cynllun Lleihau Risg yn flynyddol sy'n amlinellu cynigion ac yn diweddaru ein cynnydd i gyflwyno ein gwasanaethau yn effeithlon, effeithiol ac economaidd;
- Rydym ni'n defnyddio amrediad eang o ddata yn cynnwys data demograffig, economaidd, daearyddol ac amgylcheddol i hysbysu ein proses gwneud penderfyniadau polisi a dyrannu adnoddau;
- Mae ein gwasanaethau yn cael eu cyflwyno gan staff gyda sgiliau uchel iawn yn ogystal â phrofiad, ac rydym ni wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi staff yn eu datblygiad proffesiynol a phersonol.

**Adolygiad blynyddol o effeithlonrwydd**

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb am arwain adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol yn flynyddol o leiaf. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y System o Reoli Mewnol yn cael ei hysbysu gan waith archwilwyr mewnol a rheolwyr o fewn yr Awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheoli mewnol, a hefyd yn derbyn hysbysiad gan ein harchwilwyr allanol ac adolygiadau eraill ymgymerir â hwy.

Fel awdurdod, rydym ni'n agored i ddysgu am sut, ac ymhle y gallwn ni ddatblygu ymhellach, ac o'r herwydd, wedi cynnwys nifer o drefniadau i sicrhau fod ein hamgylchedd rheoli mewnol yn gadarn, ac i'n galluogi ni i ddysgu o brofiadau eraill

- Mae ein swyddog S151 a Chlerc yn swyddogion allanol i'r Awdurdod. Mae gan y ddwy ddyletswydd statudol i sicrhau fod gweithdrefnau rheolaeth fewnol yn effeithlon ac yn

effeithiol ac y cydymffurfir â hwy i sicrhau statws cyllidebol a deddfwriaethol cadarn i'r Awdurdod;

- Mae ein harchwilwyr mewnol wedi ymgymryd â nifer o adolygiadau yn seiliedig ar risg o'n gweithdrefnau rheoli mewnol ar draws amrediad eang o swyddogaethau o fewn yr Awdurdod. Mae pob adolygiad yn cynnwys barn ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli hynny. Adolygir yr adroddiadau gan y Grŵp Gweithredol, a chymerir gweithredoedd priodol i ddilyn argymhellion a godir. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Awdurdod hefyd.

- Mae ein harchwilwyr allanol yn darparu sicrwydd yn flynyddol ar ein datganiadau ariannol. Mae eu cylch gwaith statudol wedi ehangu i gynnwys ein trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli perfformiad hefyd. Rydym ni wedi derbyn barnau anghymwys gan ein harchwilwyr ar yr holl faterion yma.

- Trwy gydol 2007/08, mae'r Awdurdod wedi derbyn ac/neu fabwysiadu:
    - Datganiad o Gyfrifon 2007/08;
    - Adroddiadau rheoli cyllidol chwarterol;
    - Polisi Rheoli'r Trysorlys;
    - Cyllid ar gyfer 2008/09, a gefnogir gan arolygon cyllidol tair blynedd;
    - Cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol, yn cynnwys y Llythyr Archwilio Blynyddol; a
    - Cynllun Lleihau Risg 2008/09

**Materion rheoli mewnol arwyddocaol**

Rydym ni'n cydnabod y gellir gwneud gwelliannau mewn unrhyw amgylchedd sydd wedi ei reoli drwy'r amser, ac rydym ni wedi ymrwymo i ddatblygu a chryfhau ein trefniadau. Rydym ni'n enwedig wedi adnabod y canlynol fel blaenoriaethau yn 2008/09;

- Datblygu a gwella'r gofrestr risg corfforaethol ymhellach ac arfer rhai agweddau o barhad busnes;
- Adolygu'r trefniadau sy'n cefnogi sut rydym ni'n ymgymryd â gweithio mewn partneriaeth;
- Datblygu ein fframwaith rheoli perfformiad ymhellach, a chofnodi'r trefniadau hynny;
- Byddwn ni'n trin unrhyw faterion sy'n codi o'r adolygiad risg ar y cyd.

Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad:

Simon Smith
Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad:

Colin Everett
Clerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad:

Ken Finch
Trysorydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad:

# DATGANIAD POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. CYFFREDINOL

Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol Prydain Fawr 2007, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2007 gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifon y Cyhoedd (CIPFA)/LASAAC pwyllgor cymal a hefyd gyda nodiadau cynorthwyol a gyhoeddwyd gan CIPFA ynghylch sut i weithredu Safonau Cyfrifyddu (SSAP'au), a Safonau Adroddiad Ariannol (FRS).

## 2. ASEDAU SEFYDLOG

Cyflawnodd Cyngor Gwynedd y prisiad diweddaraf o asedau sefydlog yn 2004-2005. Rhoddwyd gwerth defnydd sy'n bodoli i'r swyddfeydd a chost colli gwerth cyfnewid i'r gorsafoedd tân. I gydymffurfio ag FRS15 newydd amcangyfrifodd y Prisiwr oes yn weddill ar gyfer holl adeiladau'r Awdurdod Tân er mwyn cyfrifo tâl dibrisio. Cydnabyddir yr asedau eraill ar eu cost hanesyddol sy'n ddirprwy i gostau cyfredol ar asedion bywyd ac maent yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Yn unol â gofynion FRS 11, ar ddiwedd pob cyfnod, mae'r Awdurdod yn adolygu'r gwerth sy'n cael ei gofnodi ar gyfer pob categori o ased sy'n cael ei gynnwys yn y fantolen. Pan fydd rheswm i gredu bod y gwerth wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod, mae'r prisiad yn cael ei addasu'n briodol. Mae cost diffygion yn cael ei dynnu o'r Cyfrif Incwm a Gwariant Gwasanaeth pan fydd yn deillio o ddefnyddio buddion economaidd ac, yn unol â Statud, mae'n cael ei dynnu allan yn unol â'r Datganiad Symud ar Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

## 3. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Mae gan yr Awdurdod asedau y gellir eu cydnabod dan Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (GAAP) fel asedau anniriaethol (e.e. trwyddedu meddalwedd).

Mae unrhyw asedau anghyffwrddadwy yn cael eu cyfalafu ar sail cost a'u hamorteiddio ar sail systematig dros eu hoes economaidd. Adolygir oes economaidd ddefnyddiol asedau anniriaethol yr Awdurdod ar ddiwedd pob cyfnod o adrodd yn ôl ac adolygu pe bai angen.

## 4. COSTAU'R ASEDAU SEFYDLOG O'R REFENIW

Codir tâl cyfalaf ar y cyfrif Incwm a Gwariant am ddibrisio ar gyfer yr holl asedau sefydlog a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaeth.

Mae'r llog sy'n daladwy ar ddyled sydd heb ei thalu, a ddefnyddiwyd i ariannu gwariant cyfalaf, wedi'i gynnwys yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

## 5. DIBRISIO

Ystyrir y bydd dibrisio yn achos asedau, heblaw tir, tra byddant yn cael eu defnyddio.

Fe ddefnyddir y dull llinell syth i ystyried dibrisio i'r asedau dros y cyfnodau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 15 - 80 mlynedd |
| Strwythurau Mewnol | 5 - 20 mlynedd |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 4 - 20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5 – 15 mlynedd |

## 6. Y SAIL AR GYFER DARPARU I ADBRYNU DYLEDION

Mae'r Awdurdod wedi cymryd benthyciadau tymor hir sydd yn amrywio o ran eu hyd i ariannu asedau sefydlog sydd wedi eu prynu. Cyfrifir yr elfen o adbrynu dyledion ar sail y gofyniad cyllido cyfalaf a addaswyd. Yn gyffredinol dangosir y gofyniad cyllido cyfalaf fel symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol fel swm sy'n cyfateb i 4% o'i werth. Ond, mae darpariaeth ychwanegol (gwirfoddol) wedi'i gwneud i adbrynu dyledion er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn asedau tymor byr sy'n awr yn cael eu hariannu drwy fenthyciadau, yn hytrach na phrydlesi gweithredol. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol yn seiliedig ar oes economaidd yr ased a chyfrifir y symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol ar y sail honno.

## 7. CRONFEYDD A DARPARIAETHAU

Nid yw'r gyfundrefn ariannol y mae'r Awdurdod yn gweithredu oddi tani yn caniatáu iddo ddal Arian wrth gefn. Er hynny, caniateir i'r Awdurdod ddal Darpariaethau. Mae darpariaethau'n ymwneud â'r ymrwymiadau yr aethpwyd iddynt, ond nid oes modd pennu'n fanwl gywir beth oedd swm neu amseriad y taliad. Mae cost gwariant yn cael ei chodi ar y cyfrif gwariant gwasanaeth yn y flwyddyn pan fydd y ddarpariaeth yn cael ei chreu; mae cost gwariant ar gyfer clirio'r ymrwymiad yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Mae manylion y Darpariaethau a oedd yn cael eu dal gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2008 wedi eu cynnwys yn nodyn 9 ar y Datganiadau Ariannol Craidd.

## 8. STOC A'R STORFA

Mae'r Awdurdod yn cymryd i ystyriaeth y stoc o wisgoedd ffurfiol, rhannau cerbydau, tanwydd a mân eitemau eraill. Yn unol â'r Cod Ymarfer a'r SSAP 9, rhoddir y gwerth isaf i'r stoc sef y gost wirioneddol, neu'r gwerth credadwy net.

## 9. COSTAU PENSIWN

Mae'r Awdurdod yn ymwneud â dau gynllun pensiwn gwahanol sydd yn cwrdd â gofynion grwpiau staff gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion penodol sy'n gysylltiedig â thâl a gwasanaeth. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn:-

### (i) Diffoddwyr Tân mewn Gwisg Ffurfiol

Mae hwn yn gynllun heb ei gyllido sy'n golygu nad oes asedau buddsoddi wedi eu casglu i gyfarfod ymrwymiad pensiwn. Rhaid creu arian i ymateb i daliadau pensiwn gwirioneddol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi newid mecanwaith gyllido'r cynllun hwn ar gyfer 2007-2008 ac mae hyn wedi lleddfu pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd amrywiadau blynyddol ar drethdalwyr lleol drwy greu cyfrif cronfa bensiwn.

### (ii) Gwasanaethau Llywodraeth Leol a Staff y Stafell Reoli

Mae'r staff hyn yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir o gyfrif yr Awdurdod mewn perthynas â'r staff, yn hafal i'r cyfraniadau a delir i'r cynllun pensiwn a ariannir ar gyfer y staff hyn. Codir costau ychwanegol mewn perthynas â rhai pensiynau arbennig a delir i staff sydd wedi ymddeol heb fod wedi eu hariannu.

Mae'r costau pensiwn hyn wedi eu penderfynu ar sail y cyfraddau cyfrannu cam ar y tro i gwrdd â 100% o atebolrwydd y Gronfa yn unol â rheolau perthnasol y Llywodraeth.

**(iii)** **FRS 17**

Mae FRS 17 yn rhagnodi datgelu'r ymrwymiadau tymor hir yr aethpwyd iddynt o ran costau pensiwn. Mae cyfrifon y Gwasanaeth Tân wedi'u haddasu yn unol â SORP, sy'n golygu nad yw'r newidiadau a wnaed er mwyn gweithredu FRS 17 yn cael unrhyw effaith ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Lleol.

Wrth asesu ymrwymiadau o ran budd-daliadau arian ymddeol ar 31 Mawrth 2007 ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2006-2007 roedd yn ofynnol yn ôl SORP i'r actiwari ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.3% gwirioneddol (5.4% mewn gwirionedd), cyfradd yn seiliedig ar y gyfradd bresennol o adenillion ar fond corfforaethol o ansawdd uchel mewn gwerth yn cyfateb i gost a hyd ymrwymiadau'r cynllun. Mae'r actiwari wedi nodi bod cyfradd o 2.5% gwirioneddol (6.1% mewn gwirionedd) yn briodol ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2007-2008.

10. **DYRANNU COSTAU GWEINYDDOL CANOLOG**

Darperir y gwasanaethau gweinyddol canolog mwyaf, fel Cyllid, Rheoli Eiddo a Chefnogaeth Gyfreithiol a Gweinyddol gan yr Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r costau hyn a chostau gweinyddol canolog yr Awdurdod Tân wedi eu dyrannu i wasanaethau'r rheng flaen yn unol â Datganiad CIPFA ar Gyfrifyddu Gorbenion a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

11. **DYLEDWYR A CHREDYDWYR**

Cyflwynir cyfrifon yr Awdurdod ar sail croniadau yn unol â'r SORP a'r SSAP 2; mae hyn yn golygu fod symiau sydd yn ddyledus i ac oddi wrth yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif refeniw, p'run a yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu neu beidio yn ystod y flwyddyn. Mae unrhyw groniadau gwariant cyfalaf perthnasol wedi'u gwneud ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae pob gwariant cyfalaf, gan gynnwys croniadau, wedi'i gyllido.

12. **BUDDSODDIADAU**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n rheoli cronfeydd dros ben ar ran yr Awdurdod. Trefnir buddsoddiadau'n uniongyrchol ar gyfer yr Awdurdod, yn benodol mewn cyfrif galw llog uchel, a buddsoddir cronfeydd eraill sy'n weddill eraill ar y farchnad arian fel rhan o weithgaredd rheoli'r trysorlys Conwy. Dangosir trafodion llog ar wahân o fewn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen ar sail gwerth ac incwm crynodedig. Ceir manylion pellach yn Nodyn 11 ar y Datganiadau Ariannol Craidd.

13. **PRYDLESI**

Mae'r Awdurdod yn dal gwahanol asedau cyfalaf, cerbydau a rhai eitemau offer yn bennaf dan brydlesau gweithredu. Mae unrhyw brydlesi gan yr Awdurdod wedi eu gwneud cyn cyflwyno Benthyca Darbodus a manylir ar y symiau sy'n weddill ar dudalen 18, nodyn 2. Y polisi presennol yw ariannu'r broses o brynu asedau drwy fenthyca os profir mai dyma'r dull ariannu mwyaf cost effeithlon.
Mae'r rheoliadau cyfrifyddu cyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol nad yw asedau sy'n destun prydlesi gweithredu'n cael eu rhestru ar y fantolen, gan nad yr Awdurdod sy'n berchen arnynt.
Mae asedau a geir trwy brydles gyllid yn cael eu dangos ar y fantolen fel Asedau Sefydlog.
Mae cost taliadau prydles blynyddol yn cael ei chodi ar y cyfrifon gwariant gwasanaeth.

14. **DERBYNIADAU CYFALAF**

Caiff yr enillion o asedau defnyddiadwy eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy a chânt eu cadw yn y gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes y byddant yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

15. **TRETH AR WERTH**

Nid yw TAW ond yn cael ei chynnwys mewn cyfrifon incwm a gwariant, boed o natur cyfalaf neu o natur refeniw, i'r graddau nad oes modd ei hadfer.

16. **GRANTIAU**

Mae grantiau refeniw, a'r gwariant a ariannir gan grant, yn cael eu cynnwys fel incwm a gwariant yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae grantiau cyfalaf yn cael eu rhoi yn y Cyfrif Grantiau a Chyfraniadau Gohiriedig ac yn cael eu hamorteiddio dros oes yr Asedau Sefydlog cysylltiedig.

17. **OFFERYNNAU ARIANNOL**

Caiff Offeryn Ariannol ei ddiffinio fel 'unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol sy'n un endid ac yn atebolrwydd ariannol neu offeryn ecwiti i un arall'. Mae FRS25, FRS26 ac FRS29 yn delio â'r dull o gyfrifo Offerynnau Ariannol ac mae'r safonau newydd wedi eu hymgorffori yn y broses o baratoi Datganiad Cyfrifon 2007-2008. Yn achos Awdurdod Tân Gogledd Cymru mae'r newidiadau i'r cyfrifon yn rhai bach iawn gan nad yw eu hofferynnau ariannol, benthyciadau PWLB a'u buddsoddiadau tymor byr yn rhai cymhleth eu natur.

Caiff rhwymedigaethau ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) eu mesur i gychwyn ar sail gwerth teg i gynnwys costau wedi eu hamorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar gost y benthyciad neu'r buddsoddiad wedi ei luosi gan y gyfradd llog sy'n weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau sydd gan yr Awdurdod, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif symiau sy'n weddill ynghyd ag unrhyw log sydd wedi cronni am y flwyddyn.

# DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

## CYFRIF INCWM A GWARIANT

| *DADANSODDIAD GODDRYCHOL* | *NODIADAU* | *2007/08 £'000* | *2006/07 £'000* |
|---|---|---|---|
| Diogelwch Tân Cymunedol – Arolygu ac Ardystio | | 2,268 | 2,240 |
| Diogelwch Tân Cymunedol – Atal ac Addysgu | | 4,264 | 4,334 |
| Diffodd Tân – Ymatebion Gweithredol | | 20,506 | 21,037 |
| Diffodd Tân – Cysylltiadau a Theithio | | 3,537 | 3,506 |
| Diffodd Tân – Sicrhau Cyflenwadau Dŵr | | 178 | 187 |
| Costau Craidd Democrataidd a Chorfforaethol | | 140 | 259 |
| Cost heb ei dosbarthu | | 40 | 133 |
| **GWARIANT GROS** | | **30,933** | **31,696** |
| Incwm – Diogelwch Tân Cymunedol | | -110 | -175 |
| Incwm – Diffodd Tân | | -263 | -283 |
| **CYFANSWM INCWM** | | **-373** | **-458** |
| **COST NET Y GWASANAETH** | | **30,560** | **31,238** |
| Trosglwyddo i/(o'r) Ddarpariaeth Gyllideb | | 0 | -250 |
| Trosglwyddo i/(o'r) Ddarpariaeth Bensiwn | **Nodyn 17** | 0 | -374 |
| Trosglwyddo i/(o'r) Ddarpariaeth Prosiect Rheoli | **Nodyn 17** | 2 | 127 |
| Trosglwyddo i/(o'r) Ddarpariaeth Archwilio | | 0 | -36 |
| Cynnydd /(Gostyngiad) mewn Darpariaeth Dyledion Gwael | **Nodyn 17** | 0 | 8 |
| **COST NET GWASANAETH** | | **30,562** | **30,713** |
| Llog a Dderbyniwyd | | -187 | -211 |
| Taliadau Llog Allanol | | 454 | 379 |
| Cost Llog Pensiwn | **Nodyn 24** | 9,716 | 8,791 |
| Enillion Disgwyliedig ar Asedau Pensiwn | **Nodyn 24** | -550 | -439 |
| Amhariad | **Nodyn 9** | 273 | 0 |
| Enillion yn sgil gwaredu Asedau Sefydlog | | -3 | 0 |
| **GWARIANT GWEITHREDU NET** | | **40,265** | **39,233** |
| **INCWM O GYFRANIADAU** | **Nodyn 8** | **-29,456** | **-29,350** |
| **DIFFYG/(GWARGED) AM Y FLWYDDYN** | | **10,809** | **9,883** |

## DATGANIAD SYMUDIAD AR Y BALANS GRONFA GYFFREDINOL

| | | *2007/08 £'000* | *2006/07 £'000* |
|---|---|---|---|
| **DIFFYG AR Y CYFRIF INCWM A GWARIANT** | | **10,809** | **9,883** |
| Swm ychwanegol net angenrheidiol yn ôl arferion statud ac anstatudol priodol i'w ddebydu neu ei ychwanegu i'r Balans Gronfa Gyffredinol | **Nodyn 9 a 10** | -10,809 | -9,883 |
| **ARIAN DROS BEN AM Y FLWYDDYN** | | **0** | **0** |
| CRONFA GYFFREDINOL BALANS DYGWYD YMLAEN | | **0** | **0** |
| CRONFA GYFFREDINOL BALANS I'W DDWYN YMLAEN | | **0** | **0** |

## DATGANIAD CYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION A GYDNABYDDIR

| | | *2007/08 £'000* | *2006/07 £'000* |
|---|---|---|---|
| **DIFFYG AR Y CYFRIF INCWM A GWARIANT** | | **10,809** | **9,883** |
| Enillion a Cholledion Gwirioneddol ar Asedau Cronfa Bensiwn ac Ymrwymiadau | **Nodyn 18** | -30,974 | -11,482 |
| Ailwerthusiadau o Asedau Sefydlog ac Asedau Dim Gwerth Ychwanegol | **Nodyn 18** | 0 | 462 |
| **CYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION A GYDNABYDDIR AM Y FLWYDDYN** | | **-20,165** | **-1,137** |

# MANTOLEN

| | NODIADAU | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| **Asedau Anniriaethol Sefydlog** | | | 37 | 46 |
| ***Asedau Diriaethol Sefydlog*** | | | | |
| **Asedau Gweithredol:** | **Nodyn 11** | | | |
| Tir ac Adeiladau | | 19,757 | | 19,725 |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | | 5,608 | | 4,324 |
| Strwythurau Mewnol | | 40 | 25,405 | 47 |
| **Asedau Anweithredol** | | | | |
| Asedau a Adeiladir | | | 1,666 | 297 |
| Buddsoddiadau | | | 3 | 3 |
| **CYFANSWM ASEDAU TYMOR HIR** | | | **27,111** | **24,442** |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Stoc | **Nodyn 20** | 340 | | 354 |
| Dyledwyr | **Nodyn 21** | 881 | | 671 |
| Buddsoddiadau | **Nodyn 23** | 3,130 | | 2,510 |
| Taliadau Ymlaen Llaw | | 100 | | 118 |
| Arian Parod | | 0 | 4,451 | 0 |
| **YMRWYMIADAU CYFREDOL I'W TYNNU** | | | | |
| Credydwyr | **Nodyn 22** | 2,173 | | 1,328 |
| Benthyciadau i'w talu o fewn blwyddyn | **Nodyn 16** | 0 | | 0 |
| Gorddrafft Banc | **Nodyn 19** | 206 | | 810 |
| Derbyniadau Ymlaen Llaw | | 270 | 2,649 | 330 |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | | 1,802 | 1,185 |
| **CYFANSWM ASEDAU AR ÔL TYNNU'R YMRWYMIADAU CYFREDOL** | . | | **28,913** | **25,627** |
| Ymrwymiadau Pensiwn | **Nodyn 24** | | 150,621 | 171,268 |
| Darpariaeth Ymrwymiadau Pensiwn | **Nodyn 17** | | 455 | 580 |
| Darpariaeth a Gadwyd yn ôl | **Nodyn 17** | | 90 | 90 |
| Darpariaeth Rheng i Rôl | **Nodyn 17** | | 30 | 44 |
| Darpariaeth Cyfalaf | **Nodyn 17** | | 82 | 83 |
| Darpariaeth Rheoli | **Nodyn 17** | | 143 | 141 |
| Benthyciadau Hirdymor | **Nodyn 16** | | 11,654 | 8,513 |
| Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth | **Nodyn 18** | | 1,078 | 313 |
| **CYFANSWM ASEDAU AR ÔL TYNNU'R YMRWYMIADAU** | | | **(135,240)** | **(155,405)** |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | | |
| Cronfa Ailbrisio | **Nodyn 18** | | 0 | 0 |
| Cyfrif Ariannu Cyfalaf Wrth Gefn | **Nodyn 18** | | 0 | 875 |
| Cyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog | **Nodyn 18** | | 0 | 14,509 |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | **Nodyn 18** | | 15,214 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol | **Nodyn 18** | | 167 | 479 |
| Cronfa Bensiwn | | | (150,621) | (171,268) |
| **CYFANSWM CYLLID** | | | **(135,240)** | **(155,405)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

| | *2007/08 £'000* | *2006/05 £'000* |
|---|---|---|
| **GWEITHGAREDDAU REFENIW** | | |
| | | |
| **GWARIANT** | | |
| Arian a Dalwyd i ac ar Ran Gweithwyr | 22,744 | 19,882 |
| Pensiynau a Dalwyd | 257 | 5,011 |
| Costau Gweithredol Eraill | 4,872 | 4,069 |
| | | |
| **INCWM** | | |
| Cyfraniadau | -29,456 | -29,350 |
| Incwm Arall | -50 | 351 |
| | | |
| **LLIF (MEWNOL) ALLANOL ARIAN NET Y GWEITHGAREDDAU REFENIW** | **-1,633** | **-37** |
| | | |
| **CYNNAL YR ARIANNU** | | |
| | | |
| **GWARIANT** | | |
| Llog a Dalwyd | 419 | 339 |
| | | |
| **INCWM** | | |
| Llog a Dderbyniwyd | -180 | -187 |
| | | |
| **GWEITHGAREDDAU CYFALAF A DARPARIAETHAU** | | |
| | | |
| **GWARIANT** | 3,906 | 1,786 |
| Prynu Asedau Sefydlog | 139 | 1,275 |
| Taliadau Eraill o'r Darpariaethau | | |
| | | |
| **INCWM** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | -3 | 0 |
| Grantiau Cyfalaf | -812 | -211 |
| **LLIF (MEWNOL) ALLANOL ARIAN NET CYN ARIANNU** | **1,836** | **2,964** |
| | | |
| **RHEOLI ADNODDAU HYLIFOL** | | |
| Cynnydd (gostyngiad) mewn adneuon byrdymor | 560 | -2,180 |
| **ARIANNU** | | |
| | | |
| **GWARIANT** | | |
| Ad-dalu Benthyciadau | 0 | 5,274 |
| | | |
| **INCWM** | | |
| Benthyciadau Newydd | -3,000 | -5,274 |
| | | |
| **(CYNNYDD)/ GOSTYNGIAD MEWN ARIAN A'R HYN SYDD GYFWERTH AG ARIAN** | **-604** | **784** |

# NODIADAU'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

1. **CYLLID CYNLLUN PENSIWN YMLADDWYR TÂN**

O 1 Ebrill 2007 newidiodd y trefniadau'n ymwneud â chynlluniau Pensiwn Ymladdwyr Tân. Arferai cost taliadau pensiwn gael eu hariannu o gyfrif refeniw'r Awdurdod a oedd yn cael eu gosod yn erbyn cyfraniadau Ymladdwyr Tân, dan y trefniadau newydd mae'n ofynnol cadw Cyfrif Cronfa Bensiwn ar wahân. Gwneir taliadau pensiwn o'r cyfrif Cronfa Bensiwn newydd a thelir cyfraniadau Ymladdwyr Tân a'r cyflogwyr i'r cyfrif, a bydd unrhyw ddiffyg ar y cyfrif yn cael ei ariannu drwy Grant Ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG). Er mwyn gosod arian yn erbyn y newid mewn cyllid, gostyngodd WAG y Grant Cefnogi Refeniw (RSG) i'r Awdurdodau Unigol a gostyngodd yr Awdurdod Tân ei ymrwymiad cyllid yn unol â hynny.

2. **PRYDLESU**

Yr oedd y taliadau prydlesu yn weddill ar 31 Mawrth 2008 yn £1,274,448 (31 Mawrth 2007, £1,900,866), gyda thaliadau prydlesu o £607,720 (2006/07, £805,313) yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl brydlesi gweithredu ar gyfer cerbydau ac offer. Gwnaed taliadau prydlesu o £3,746 yn ystod y flwyddyn; pris prynu gwreiddiol y cerbydau oedd £359,048. Mae'r brydles arian wedi cyrraedd y cyfnod rhentu eilaidd, a bydd yn para am oes ddefnyddiol y cerbydau.

| ***YMRWYMIADAU PRYDLESU*** | ***£'000*** |
|---|---|
| Dod i ben o fewn 12 mis | 413 |
| Dod i ben rhwng 2 a 5 mlynedd | 771 |
| Dod i ben ar ôl 5 mlynedd | 90 |
| **CYFANSWM** | **1,274** |

3. **GWARIANT AR GYHOEDDUSRWYDD**

Dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol 1986, mae'n angenrheidiol i'r Awdurdod ddatgelu'r gwariant ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu a gyfeirir at y cyhoedd yn gyffredinol neu adrannau penodol o'r cyhoedd. Yn 2007-2008 yr oedd y gwariant hwn yn £59,128.

| ***GWARIANT AR GYHOEDDUSRWYDD*** | ***2007/08 £'000*** | ***2006/07 £'000*** |
|---|---|---|
| Recriwtio | 23 | 23 |
| Hysbysebu Diogelwch Tân | 36 | 63 |
| **CYFANSWM** | **59** | **86** |

4. **LWFANSAU A CHOSTAU AELODAU**

Yn ystod 2007-2008 talwyd £61,011 (£57,757 yn 2006-2007) i Aelodau ar ffurf Lwfansau Aelodau a chostau teithio.

5. **ENILLION Y SWYDDOGION**

Nifer y staff yr oedd eu taliadau, yn £60,000 neu'n fwy mewn bandiau o £10,000:-

| ***BAND TÂL*** | **2007/08** ***NIFER STAFF*** | ***2006/07 NIFER STAFF*** |
|---|---|---|
| £100,000 - £109,999 | 1 | 1 |
| £90,000 - £99,999 | 0 | 0 |
| £80,000 - £89,999 | 1 | 1 |
| £70,000 - £79,999 | 2 | 2 |
| £60,000 - £69,999 | 4 | 1 |

6. **TRAFODION GYDA PHARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru nifer o gysylltiadau ag awdurdodau sy'n aelodau:

- Mae pob aelod o'r Gwasanaeth Tân hefyd yn aelod o un o'r awdurdodau sy'n aelodau
- Trysorydd y Gwasanaeth Tân yw Cyfarwyddwyr Corfforaethol Adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Swyddog Monitro 2007-2008 oedd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru rai trefniadau ar y cyd gyda'r Awdurdod Tân sy'n cynnwys Adran Reoli Stadau ar y cyd a gwaith partneriaeth ar nifer o brosiectau. Yn ystod y flwyddyn bu trafodion gyda phartïon perthnasol fel y dangosir isod.

| | ***£'000*** |
|---|---|
| CBS Conwy – Gwasanaethau Cyllid | 72 |
| Cyngor Sir Ddinbych - Swyddog Monitro a Gwasanaethau Cyfreithiol | 37 |
| Cyngor Sir y Fflint – Gwasanaeth Cynllun Pensiwn | 15 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 22 |
| Yr Heddlu a Gwasanaethau Tân Eraill | 179 |

Gofynnwyd i uwch swyddogion y Gwasanaeth Tân ddatgan unrhyw drafodion trydydd parti yn ystod y flwyddyn. Ac eithrio lwfansau a threuliau aelodau ni nodwyd unrhyw drafodion eraill.

7. **FFIOEDD ARCHWILIO 2007/08**

Cyfanswm y ffi a dalwyd i Swyddfa Archwilio Cymru am wasanaethau archwilio allanol oedd £52,631 (2006/07, £51,192). Y ffioedd oedd yn daladwy am y gwasanaethau archwilio allanol a wnaed yn unol ag adran 16 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 oedd £42,570 (2006/07 £41,452). Y ffioedd oedd yn daladwy am archwiliad statudol o dan adran 10 Deddf Llywodraeth leol 1999 oedd £10,061 (2006/07 £9,740).

8. **CYFRANIADAU**

Yn 2007-2008 defnyddiwyd cyfraniadau oedd yn dod i gyfanswm o £29,456,445 i ariannu gwariant refeniw gan yr Awdurdodau Lleol canlynol:-

| *AWDURDOD* | *2007/08 £'000* | *2006/07 £'000* |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,006 | 2,989 |
| Cyngor Gwynedd | 5,149 | 5,139 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 4,865 | 4,865 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,189 | 4,160 |
| Cyngor Sir y Fflint | 6,553 | 6,531 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 5,694 | 5,666 |
| **CYFANSWM TRETHI** | **29,456** | **29,350** |

9. **SYMUDIAD AR Y BALANS GRONFA GYFFREDINOL**

Mae'r arian dros ben yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr incwm a'r gwariant - faint yn fwy incwm sydd ar ôl. Yr addasiadau i'r balans Gronfa Gyffredinol yw'r symiau sydd naill ai heb eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond sy'n ofynnol yn ôl statud i'w cynnwys neu wedi'u cynnwys, ond sy'n ofynnol yn ôl statud i'w heithrio wrth bennu'r Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol . Ar hyn o bryd mae'r Awdurdodau Tân yng Nghymru'n cael eu hatal rhag dal cronfeydd wrth gefn felly ni fydd gweddill na diffyg am y flwyddyn gan fod yn rhaid balansio'r incwm a dderbyniwyd â'r gwariant am y flwyddyn.

Mae'r tabl isod yn dangos yr eitemau cysoni i'r symudiad ar y balans Gronfa Gyffredinol.

| | *2007/08 £'000* | *2006/07 £'000* |
|---|---|---|
| **Symiau wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond sy'n ofynnol yn ôl statud i'w heithrio wrth bennu'r Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol** | | |
| Darpariaeth ar gyfer Addasiad Dibrisio | -964 | -834 |
| Addasiad Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth | 47 | 30 |
| Addasiad Taliadau Gohiriedig | 0 | 0 |
| Addasiad Pensiwn yn sgil FRS17 | -13,412 | -13,876 |
| Amhariad | -273 | 0 |
| Enillion yn sgil gwaredu Asedau Sefydlog | 3 | 0 |
| | **-14,599** | **-14,680** |
| **Symiau heb eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond sy'n ofynnol yn ôl statud i'w heithrio wrth bennu'r Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol** | | |
| Cyfraniadau'r cyflogwr yn daladwy i Gronfa Pensiwn Clwyd a'r Gronfa Bensiynau Ymladdwyr Tân a'r Taliadau Pensiwn sydd i'w priodoli i'r Awdurdod Tân (2007-08 yn unig) | 3,085 | 4,268 |
| Darpariaeth Statudol ar gyfer Ad-dalu Dyled | 199 | 175 |
| Darpariaeth Wirfoddol ar gyfer Ad-dalu Dyled | 506 | 354 |
| | **3,790** | **4,797** |
| **CYFANSWM** | **-10,809** | **-9,883** |
| | | |

**DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (MRP) A DIBRISIO**

Mae'n ofynnol yn ôl statud i'r Awdurdod neilltuo MRP ar gyfer ad-dalu dyledion, gall yr Awdurdod hefyd neilltuo darpariaeth wirfoddol (VRP) ar gyfer ad-dalu dyledion yn gynnar. Ar gyfer 2007-2008, swm yr MRP a'r VRP yw £705,323 a dangoswyd hyn fel addasiad ar y Symudiad yn y Balans Gronfa Gyffredinol  gan ei fod yn dâl gwirioneddol ar yr

Awdurdod. Yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau codwyd tâl dibrisio ar benawdau Gwariant Gwasanaeth i'w ddefnyddio ar gyfer asedau sefydlog yr Awdurdod. Dangosir y tâl dibrisio fel addasiad i'r Balans Gronfa Gyffredinol gan mai'r tâl gwirioneddol a godwyd ar yr Awdurdod am ad-dalu dyledion yw'r MRP. Dangosir y cofnodion sy'n sail i gyfrifo'r trosglwyddiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf isod:-

| | ***2007/08 £'000*** | ***2006/07 £'000*** |
|---|---:|---:|
| Tâl a Godwyd fel Dibrisio | 964 | 834 |
| Trosglwyddo o'r Cyfrif Ariannu Cyfalaf i'r Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol | -259 | -305 |
| **DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW A DARPARIAETH REFENIW WIRFODDOL** | **705** | **529** |

.

**ADDASIAD GRANTIAU GOHIRIEDIG Y LLYWODRAETH**

Neilltuir y grantiau a dderbyniwyd tuag at brynu asedau sefydlog i benawdau Incwm Gwasanaeth yn unol â'r tâl dibrisio ar gyfer yr ased. Gwneir addasiad i'r grant gohiriedig, sef £46,677 (2006-07 £30,000) ar y Symudiad ar y Balans Gronfa Gyffredinol a neilltuir y credyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**AMHARIAD**

Mae'r taliad amhariad yn cyd-fynd â'r newidiadau o ran cyfrifo cyfalaf ar gyfer 2007-2008. Mae'r taliad wedi dod yn sgil y gwariant a wnaed ar Asedau Sefydlog nad yw wedi arwain at gynnydd cyfatebol o ran gwerth. O'r blaen, byddai'r swm 'Dim Gwerth Ychwanegol' wedi ei godi o'r Cyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog ar y Fantolen, ond dan y canllawiau newydd, os nad oes credyd ailddatgan yn erbyn yr asedau yn y Gronfa Ail Werthuso, rhaid adlewyrchu'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

10. **PENSIYNAU**

(i) **Gwasanaethau Llywodraeth Leol a Staff Rheoli**

Yn 2007-2008 talodd yr Awdurdod gyfraniad cyflogwr o £639,422 (2006-2007, £580,630) at y Cynllun Pensiwn sy'n cynrychioli 19.5% (2006-2007, 21.3%) o dâl pensiynadwy staff i Gronfa Bensiwn Clwyd, sy'n rhoi buddion penodol i aelodau o ran tâl a gwasanaeth. Pennir cyfradd y cyfraniad gan Actiwari'r Gronfa yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, adolygwyd yr olaf ar 31 Mawrth 2007. O dan Reoliadau Pensiynau presennol pennir cyfraddau cyfrannu i gwrdd â 100% o ymrwymiadau cyffredinol y Gronfa. Yn ystod 2007-2008 talwyd buddion blynyddoedd ychwanegol a chostau ymddeoliad cynnar yn sgil diswyddiadau o £37,489 (2006-2007, £50,847) i staff sy'n cynrychioli 1.24%(2006-2007, 1.87%) o dâl pensiynadwy staff.
Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Clwyd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gronfa Bensiwn sydd ar gael ar gais gan Drysorydd y Sir yng Nghyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NA neu ar y wefan www.flintshire.gov.uk.

(ii) **Diffoddwyr Tân**

Mae cynllun pensiwn Diffoddwyr Tân yn gynllun nad yw'n cael ei ariannu gyda buddion penodol. Yn 2007-2008, talodd yr Awdurdod gyfraniad Blwydd-dal cyflogwr o £2,128,804 a thaliad Iechyd Gwael o £155,126 ar gyfer y blynyddoedd blaenorol i'r Gronfa Bensiwn (a chyllidwyd £125,126 o'r ddarpariaeth Bensiwn). Cyfanswm y pensiynau a dalwyd drwy refeniw oedd £249,105. (2006-2007, £3.72m – cost net pensiynau a dalwyd o'r Gronfa Gyffredinol).

(iii) **Symudiadau ar y Gronfa Bensiwn**

Yn unol ag FRS17 neilltuir cost bresennol gwasanaeth pensiynadwy i wariant gros yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Tynnir taliadau gwirioneddol y cynllun pensiwn ar ran staff sy'n gweithio ar hyn o bryd o'r Cyfrif Incwm a Gwariant, yna gwneir addasiad o dan y llinell rhag bod unrhyw effaith ar wariant cyffredinol yr Awdurdod. Gwnaed prisiadau actiwaraidd ar gynllun y Diffoddwyr Tân gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, ac ar gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan Mercers. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r dyraniadau o'r gronfa Bensiwn i'r Symudiad ar y Balans Diwedd Blwyddyn yn 2006-2007 ar gyfer y ddau gynllun.

| ***SYMUDIADAU*** | ***2007/08 £'000*** | ***2006/07 £'000*** |
|---|---|---|
| Cyfraniadau staff | | |
| – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 677 | 618 |
| - Pensiynau a Dalwyd i Ddiffoddwyr Tân | 249 | 4,927 |
| - Taliad Iechyd Gwael (refeniw) | 30 | 0 |
| – Cyfraniadau Diffoddwyr Tân i'w tynnu | 0 | -1,277 |
| - Cronfa Bensiwn Ymladdwyr Tân | 2,129 | 0 |
| Cost Bresennol y Gwasanaeth | | |
| – Diffoddwyr Tân | -4,980 | -4,920 |
| – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | -498 | -522 |
| Cost Cyn Wasanaeth | | |
| – Diffoddwyr Tân | 0 | 0 |
| – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 0 | -82 |
| Cost Llog | | |
| – Diffoddwyr Tân | -9,020 | -8,180 |
| – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Adenillion a Ddisgwylir ar Asedau Pensiwn | -696 | -611 |
| – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 550 | 439 |
| Gwahaniaeth rhwng Amcangyfrif Actiwaraidd a Chyfraniadau Gwirioneddol | | |
| -Ymladdwyr Tân | 1,232 | 0 |
| **DYRANIADAU O'R GRONFA BENSIWN I'R BALANS DIWEDD BLWYDDYN** | **-10,327** | **-9,608** |

Mae mwy o wybodaeth am bensiynau yn Nodyn 18 a Nodyn 24.

## 11. ASEDAU SEFYDLOG

Amlinellir gwerth asedau yn Nodyn 2 a Nodyn 3 o Bolisïau Cyfrifyddu. Dangosir manylion gwerth yr asedau ar 31 Mawrth 2008 isod, ynghyd â manylion y symudiad yn ystod y flwyddyn:-

| | *Tir ac Adeiladau* £'000 | *Cerbydau ac Offer* £'000 | *Strwythurau Mewnol* £'000 | *Asedau Anweithredol* £'000 | **Asedau Anniriaethol Sefydlog** £'000 | *Cyfanswm* £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth Gros Llyfr ar y 1 Ebrill 2007 | 20,631 | 8,639 | 260 | 297 | 65 | 29,892 |
| Ail-werthuso ac Ailddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **GWERTH AR 1EBRILL 2007** | **20,631** | **8,639** | **260** | **297** | **65** | **29,892** |
| Atodiadau | 422 | 1,818 | 0 | 1,666 | 0 | 3,906 |
| Gwariant wedi ei Gomisiynu | 204 | 93 | 0 | -297 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | -322 | 0 | 0 | 0 | -322 |
| Wedi ei dynnu ymaith i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | -273 | 0 | 0 | 0 | 0 | -273 |
| **GWERTH GROS LLYFR AR 31 MAWRTH 2008** | **20,984** | **10,228** | **260** | **1,666** | **65** | **33,203** |
| Cynnydd yn y Dibrisio ar 1 Ebrill 2007 | -906 | -4,315 | -213 | 0 | -19 | -5,453 |
| Dibrisio am y Flwyddyn | -321 | -627 | -7 | 0 | -9 | -964 |
| Gwarediadau | 0 | 322 | 0 | 0 | 0 | 322 |
| **Cynnydd yn y Dibrisio/Golled ar 31 Mawrth 2008** | **-1,227** | **-4,620** | **-220** | **0** | **-28** | **-6,095** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2008** | **19,757** | **5,608** | **40** | **1,666** | **37** | **27,108** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2007** | **19,725** | **4,324** | **47** | **297** | **46** | **24,439** |

13. **GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU**

Manylir ar y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'i effaith ar y Gofyniad Ariannu Cyfalaf isod:-

| | *2007/2008 £'000* | *2006/2007 £'000* |
|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn Agor | 8,740 | 7,694 |
| Buddsoddiad Cyfalaf mewn Blwyddyn | | |
| • Asedau Anniriaethol | 0 | 0 |
| • Asedau Sefydlog | 3,905 | 1,786 |
| Ffynonellau Cyllid | | |
| • Grantiau a Chyfraniadau | -812 | -211 |
| • Refeniw a Darpariaethau eraill | -1,020 | -529 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn Cau | 10,813 | 8,740 |
| Newid mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf | **2,073** | **1,046** |
| Eglurhad am y newid: | | |
| Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca | 2,073 | 1,046 |

14. **YMRWYMIADAU CYFALAF 2008-2009 Ymlaen**

Yr ymrwymiadau cyfalaf sylweddol a ddechreuwyd ar 31 Mawrth 2008 oedd £3.571m. Manylir arnynt yn y tabl isod.

| **Cynllun** | **Cost yn y dyfodol yn y contractau £'000** |
|---|---|
| Amrywiol Eiddo | 2,145 |
| Tendrau Dŵr, Cerbydau ac Offer | 1,426 |
| **CYFANSWM** | **3,571** |

15. **GWYBODAETH AM YR ASEDAU A FEDDIANNIR**

Yr asedau sefydlog a feddiannir gan yr Awdurdod gan gynnwys y canlynol:-

| | *Nifer ar 31 Mawrth 2008* | *Nifer ar 31 Mawrth 2009* |
|---|---|---|
| **TIR AC ADEILADAU** | | |
| Gorsafoedd Tân | 44 | 44 |
| Pencadlys y Frigâd | 0 | 0 |
| Pencadlysoedd Rhanbarthol | 0 | 2 |
| Swyddfeydd Diogelwch y Siroedd | 5 | 0 |
| Stafelloedd Rheoli | 2 | 1 |
| Sefydliadau Hyfforddi | 2 | 4 |
| Gweithdai Cerbydau | 1 | 1 |
| Storfeydd | 1 | 1 |
| **CERBYDAU AC OFFER** | | |
| Cerbydau Gwaith | 60 | 40 |
| Cerbydau Cynorthwyol | 80 | 50 |

16. **BENTHYCA ALLANOL**

Mae'r benthyciadau sydd i'w talu wedi eu cymryd drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r modd y bydd y benthyciadau'n aeddfedu.

| ***Ffynhonnell y Benthyciad*** | ***Cyfradd Llog yn Daladwy 2007/08 %*** | ***Cyfanswm yn Weddill ar 31 Mawrth 2007 £'000*** | | ***Cyfanswm yn Weddill ar 31 Mawrth 2007 £'000*** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 3.85 – 5.0 | | 11,513 | | 8,513 |
| **DADANSODDIAD O AEDDFEDRWYDD Y BENTHYCIADAU** | | | | | |
| O fewn1 flwyddyn | | | 0 | | 0 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | | 0 | | 0 | |
| Rhwng 2 a 5 mlynedd | | 1,414 | | 414 | |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | | 500 | | 500 | |
| Dros 10 mlynedd | | 9,599 | | 7,599 | |
| | | | 11,513 | | 8,513 |
| **Llog Dyledus ar gyfer 2007/08** | | | 141 | | 0 |
| **CYFANSWM MANTOLEN** | | | **11,654** | | **8,513** |

Mae offerynnau ariannol FRS25, FRS26 a FRS29, wedi cyflwyno gofynion adrodd ychwanegol ar gyfer 2007-08. Bellach mae'n ofynnol cydnabod unrhyw log sy'n weddill ar fenthyciadau ar y Fantolen fel rhan o'r benthyciad - mae'r manylion yn y tabl uchod. Mae gwerth teg y portffolio benthyciadau bellach wedi ei ddatgelu mewn nodyn i'r cyfrifon. Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnwys asesiad o ddull rheoli'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol fel nodyn i'r cyfrifon.

Mae gwerthoedd teg ar gyfer rhwymedigaethau ariannol wedi eu pennu drwy gyfeirio at reolau adbrynu y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a chyfraddau adbrynu cyffredinol y PWLB ar sail dyddiad pob mantolen. Gwerth teg benthyciadau PWLB ar 31 Mawrth 2008 oedd £12,255,093 (31 Mawrth 2007, £8,261,614). Dylid nodi bod y rheolau adbrynu sy'n berthnasol i ddyled PWLB wedi newid o 1 Tachwedd 2007, a'u bod yn llai ffafriol na'r gweithdrefnau blaenorol. O ganlyniad mae'r ffigurau gwerth teg ar gyfer 31 Mawrth 2008 yn gymharol uwch (mwy costus i'w had-dalu) na ffigurau 31 Mawrth 2007.

Gan fod gan yr Awdurdod fynediad rhwydd i fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, nid oes risg sylweddol na fydd yn gallu codi arian i gwrdd â'i ymrwymiadau o dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod wedi ei ymrwymo i adfer cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

17. **SYMUDIAD AR DDARPARIAETHAU**

Ar 31 Mawrth 2008 roedd gan yr Awdurdod nifer o ddarpariaethau. Mae'r darpariaethau a'r symudiad ar y darpariaethau fel a ganlyn.

**Darpariaeth Bensiwn**

Sefydlwyd y Ddarpariaeth ar gyfer Ymrwymiadau Pensiwn i liniaru effaith yr ymrwymiadau, sy'n codi o hen wasanaeth, er mwyn gwneud taliadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd newidiadau i drefniadau ariannu cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân, ni fydd angen darpariaeth mor fawr ar yr Awdurdod yn y blynyddoedd nesaf. Dylid defnyddio'r balans ar y ddarpariaeth i osod unrhyw ymrwymiadau am daliadau Iechyd Gwael yn ei erbyn drosodd ac yn uwch na'r swm yn y gyllideb refeniw. Yn 2007-2008 roedd yr Awdurdod yn atebol am y

taliadau Iechyd Gwael ar gyfer y blynyddoedd 2005 i 2007 fel rhan o'r cynllun pensiwn newydd, cyllidwyd £125,126 o'r taliad o'r ddarpariaeth. Y balans ar y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2008 £454,919.

**Darpariaeth Gyfalaf**

Mae'r balans o £82,490 ar y Ddarpariaeth Gyfalaf wedi'i neilltuo i fynd yn erbyn costau'r wisg ffurfiol PPE (Offer Diogelu Personol) arfaethedig. Ni fu unrhyw symudiad ar y ddarpariaeth yn 2007/08 gan na fydd y rhaglen yn cychwyn tan 2008/09.

**Darpariaeth Rheoli**

Sefydlwyd y Ddarpariaeth Rheoli i dalu am gostau'r prosiect i leoli ystafelloedd rheoli'r tri gwasanaeth argyfwng ar y cyd a chynorthwyo gyda'r costau ail-leoli. Disgwylir y bydd y trosglwyddo'n digwydd yn 2008/2009 pan ragwelir y caiff y balans o £143,176 ar y ddarpariaeth ei ddefnyddio.

**Darpariaeth Dyled Ddrwg**

Mae'r Awdurdod yn cynnal Darpariaeth Dyled Ddrwg sy'n ddigonol ar gyfer dyledion y bydd o bosibl yn ofynnol iddynt gael eu dileu. O ganlyniad i ddadansoddiad o ddyledwyr diwedd y flwyddyn mae'r ddarpariaeth wedi aros yr un fath.

**Darpariaeth Rheng i Rôl**

Yn 2005-06 neilltuwyd £100,000 ar gyfer ôl dâl costau Rheng i Rôl. Yn 2007-08 defnyddiwyd £14,279 o'r ddarpariaeth, defnyddir gweddill y balans yn 2008-09.

**Darpariaeth Cyflog Cyfartal**

Yn 2005-06 neilltuwyd £90,000 i fynd yn erbyn y canlyniadau ariannol yn sgil yr hawl gan ddiffoddwyr tân wrth gefn i'r un amodau gwasanaeth â diffoddwyr tân llawn amser. Yn 2007-08 ni ddefnyddiwyd y ddarpariaeth ond rhagwelir y bydd rhywfaint o wariant yn 2008-09.

Nid yw rhai o'r darpariaethau gan yr Awdurdod (Rheng i Rôl, Tâl Cyfartal, Pensiwn, Cyfalaf a Rheoli) yn cydymffurfio'n union â gofynion Safon Adroddiad Ariannol 12 a datganiad Ymarfer a Argymhellir CIPFA o ddiffiniad 'darpariaeth'. Nid yw'r Gorchymyn Cyfuno ar gyfer Awdurdodau Tân yng Nghymru'n caniatáu'n union i Awdurdod Tân Cyfunol gadw cronfeydd, sef y dosbarthiad priodol ar gyfer darpariaethau uchod. Mae'r Awdurdod Tân wedi mabwysiadu dull pragmatig ac wedi'u categoreiddio fel darpariaethau sydd wedi'u harfer a'u gweithredu gan yr Awdurdod ers 1996. Mae'r awdurdodau sy'n aelodau'n ymwybodol o'r cytundeb ac yn fodlon ag ef.

18. **MANYLION Y SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD**

| | ***CRONFEYDD REFENIW*** | ***CRONFEYDD CYFALAF*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***Cronfa Bensiwn*** ***£'000*** | ***Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth*** ***£'000*** | ***Cyfrif Ariannu Cyfalaf*** ***£'000*** | **Cyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog** ***£'000*** | **Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol** ***£'000*** | ***Cyfrif Addasu Cyfalaf*** ***£'000*** | ***Cyfrif Addasu Offerynnau Cyllid*** ***£'000*** | ***Cronfa Ailwerthuso*** ***£'000*** | ***Cyfanswm*** ***£'000*** |
| Balans ar 1 Ebrill 2006 | -171,268 | 313 | 875 | 14,509 | 479 | 0 | 0 | 0 | 16,176 |
| Net (Diffyg)/Gwarged ar gyfer y Flwyddyn – Dyraniadau o'r Refeniw | -13,412 | -47 | -875 | -14,509 | 3 | 15,384 | | | -44 |
| Addasu'r Gronfa Bensiwn | 3,085 | | | | | | | | |
| Ariannu Asedau Sefydlog | 0 | 812 | 0 | 0 | -315 | 1,067 | | | 1,564 |
| Ailbrisio Asedau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | 0 |
| Gwariant Cyfalaf 2007-2008 - Dim Gwerth Ychwanegol - Amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -273 | | | -273 |
| Dibrisiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -964 | | | -964 |
| Enillion Actiwaraidd | 30,974 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | 0 |
| **BALANS AR 31 MAWRTH 2008** | **-150,621** | **1,078** | **0** | **0** | **167** | **15,214** | **0** | **0** | **16,459** |

**<u>Cronfa Bensiwn</u>**

Gellir dosbarthu'r enillion a'r colledion actiwaraidd sydd wedi eu nodi fel symudiadau yn y Gronfa Bensiwn yn 2007-08 i'r categorïau canlynol.

| ***CATEGORI*** | ***2007/08*** | | ***2006/07*** | | ***2005/06*** | | ***2004/05*** | | ***2003/04*** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***£'000*** | ***Ased/ Ymrwymiad %*** | ***£'000*** | ***Ased/ Ymrwy-miad %*** | ***£'000*** | ***Ased/ Ymrwy-miad %*** | ***£'000*** | ***Ased/ Ymrwy-miad %*** | ***£'000*** | ***Ased/ Ymrwy-miad %*** |
| Gwahaniaeth rhwng yr adenilliad disgwyliedig a'r adenilliad gwirioneddol ar Asedau | (627) | 7.4 | (4) | 0.1 | 1,026 | 14.70 | 156 | 3.02 | 540 | 13.03 |
| Gwahaniaeth rhwng rhagdybiaethau actiwaraidd ynglŷn ag ymrwymiadau a'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd | 5,589 | 3.7 | 570 | 0.8 | 3,950 | (2.19) | 709 | (0.47) | 1,860 | (1.68) |
| Newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig ac ariannol sy'n cael eu defnyddio er mwyn amcangyfrif ymrwymiadau | 26,012 | 17.26 | 10,916 | 6.4 | (24,528) | 13.62 | (34,468) | 22.86 | (13,850) | 12.54 |
| **Cyfansymiau** | **30,974** | | **11,482** | | **(19,552)** | | **(33,603)** | | **(11,450)** | |

**<u>Y Gronfa Ailwerthu</u>**

Mae'r Gronfa Ail-werthuso yn cymryd lle'r Cyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog (FARA). Mae'r balans ar FARA wedi'i drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac mae'r Gronfa Ail-werthuso wedi'i chynnwys ar y Fantolen heb unrhyw falans agoriadol. Felly mae safle terfynol y gronfa ar 31 March 2008 ond yn dangos yr enillion ail-werthuso sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2007. Yn 2007-2008, nid oedd unrhyw enillion ail-werthuso i'r Awdurdod.

**<u>Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol (FIAA)</u>**

Rhaid dwyn Asedau Ariannol ymlaen ar Werth Teg ac mae'r FIAA yn darparu mecanwaith cydbwyso ar gyfer enillion a cholledion posibl. Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw Asedau Ariannol a oedd angen eu haddasu i adlewyrchu Gwerth Teg.

**<u>Cyfrif Addasu Cyfalaf</u>**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (CAA) yn disodli'r Cyfrif Cyllido Cyfalaf (CFA) ac yn cynnwys nifer o ychwanegiadau sy'n ymwneud â chyfrifo cyfalaf. Trosglwyddwyd y balans ar FARA a'r CFA i'r CAA ar 1 Ebrill 2007 ac mae ychwanegiadau eraill y flwyddyn yn cynnwys gweddill dibrisiad dros ddarpariaethau refeniw ar gyfer adbryniant rent posibl, rhan o gyllido rhaglen gyfalaf 2007-2008 a thaliadau amhariad.

**Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth**

Mae'r balans ar y cyfrif hwn yn cynrychioli gwerth y grantiau cyfalaf a ddefnyddiwyd i ariannu'r dasg o gaffael neu wella asedau sefydlog ar y gofrestr asedau, sy'n agored i ddibrisio. Bydd y balans ar y cyfrif hwn yn cael ei drosglwyddo i refeniw yn unol â dibrisio.

| | *£'000* |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2007 | 313 |
| Grantiau a Chyfraniadau a Weithredwyd yn ystod 2007/08 | 812 |
| Symudiad a Nodwyd ar Falans y Gronfa Gyffredinol | -47 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2008** | **1,078** |

19. **GORDDRAFFT**

Yr oedd yr arian mewn llaw'n cynrychioli'r arian a ddangoswyd yn y Fantolen, ynghyd â thrafodion heb eu heffeithio oddi fewn i'r balans banc a gliriwyd ar 31 Mawrth 2008. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa:-

| | *31 Mawrth 2008 £'000* | *31 Mawrth 2007 £'000* |
|---|---|---|
| Arian fesul Mantolen | -206 | -810 |
| Trafodion Banc heb eu clirio | 278 | 948 |
| Arian Symudol | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **72** | **138** |

20. **STOC**

Dangosir dadansoddiad o'r stociau ar 31 Mawrth 2007 a 31 Mawrth 2008 isod:-

| *STOC* | *31 Mawrth 2008 £'000* | *31 Mawrth 2007 £'000* |
|---|---|---|
| Prif Storfa (Pencadlys) | 328 | 342 |
| Stoc Trafnidiaeth | 12 | 12 |
| **CYFANSWM** | **340** | **354** |

21. **DYLEDWYR**

| | *31 Mawrth 2008 £'000* | *31 Mawrth 2007 £'000* |
|---|---|---|
| Adrannau'r Llywodraeth ac Asiantaethau Eraill | 676 | 428 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 100 | 42 |
| Dyledwyr Amrywiol | 119 | 215 |
| **DYLEDWYR GROS** | **895** | **685** |
| Darpariaeth Dyled Ddrwg | -14 | -14 |
| **DYLEDWYR NET** | **881** | **671** |

## 22. CREDYDWYR

| | *31 Mawrth 2008 £'000* | *31 Mawrth 2007 £'000* |
|---|---:|---:|
| Adrannau'r Llywodraeth ac Asiantaethau | 611 | 143 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 317 | 120 |
| Dyledwyr Amrywiol | 1,245 | 1,065 |
| **CYFANSWM** | **2,173** | **1,328** |

## 23. BUDDSODDIADAU

Mae'r buddsoddiadau isod yn fuddsoddiadau penodol o dan God Ymarfer Rheoli'r Trysorlys sy'n cael ei gefnogi gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ac sy'n cynnwys y sefydliadau canlynol:-

| *Sefydliadau* | *31 Mawrth 2008 £'000* | *31 Mawrth 2007 £'000* |
|---|---:|---:|
| **Tymor byr** | | |
| Banc yr Alban | 910 | 250 |
| Anglo Irish | 2,160 | 2,260 |
| **Cyfanswm** | **3,070** | **2,510** |
| **Llog Dyledus** | **60** | **0** |
| **CYFANSWM Y FANTOLEN** | **3,130** | **2,510** |

Mae FRS25, FRS26 a FRS29 sy'n cyfrifo am Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyllid sy'n weddill ar 31 Mawrth gael ei gydnabod ar y Fantolen fel rhan o'r buddsoddiad.

## 24. ASESU YMRWYMIADAU PENSIWN AR GYFER DATGELIADAU FRS17

Yn unol â gofynion y Safon Adroddiad Ariannol Rhif 17 – Budd-daliadau Ymddeoliad (FRS 17) mae'n rhaid i'r Awdurdod Tân ddatgelu peth gwybodaeth ynghylch asedau, ymrwymiadau, incwm a gwariant yn ymwneud â chynlluniau pensiwn ar gyfer ei staff. Fel yr esbonnir yn Nodyn 10 mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer diffoddwyr tân llawn amser nad yw'n cael ei ariannu, a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cronfa Bensiwn Clwyd) ar gyfer staff eraill a chaiff hwnnw ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau ar gyfer talu blynyddoedd ychwanegol i rai staff penodol sydd wedi ymddeol, y tu allan i'r cynlluniau hyn.

Dyma oedd asedau ac ymrwymiadau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 31 2008 a 31 Mawrth 2007:

| | *31 Mawrth* | |
|---|---:|---:|
| | *2008 £'000* | *2007 £'000* |
| Amcangyfrif o Ymrwymiadau yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 144,340 | 166,510 |
| Cyfran o'r ymrwymiadau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd | 14,797 | 12,614 |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau** | **159,137** | **179,124** |
| Cyfran o'r asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd | 8,516 | 7,856 |
| **Diffyg Net yn y Pensiynau** | **150,621** | **171,268** |

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu prisio ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned amcanol sy'n asesu ymrwymiadau'r gronfa yn y dyfodol wedi eu gostwng i'w gwerth presennol. Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei brisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ac mae ymrwymiadau Cronfa'r Cyngor Sir wedi ei brisio gan Mercer, cwmni annibynnol o actiwarïaid. Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau yw:

| | **Cynllun y Diff. Tân** | | **Cronfa Bensiwn Clwyd** | |
|---|---|---|---|---|
| | ***2008 %*** | ***2007 %*** | ***2008 %*** | ***2007 %*** |
| Cyfradd chwyddiant | 3.7 | 3.4 | 3.6 | 3.1 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 5.2 | 4.9 | 4.9 | 4.4 |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 3.7 | 3.4 | 3.6 | 3.1 |
| Cyfradd gostwng ymrwymiadau'r cynllun | 6.9 | 5.4 | 6.1 | 5.4 |

Mae'r asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd wedi eu prisio ar sail gwerth teg, yn bennaf gwerth y farchnad ar gyfer buddsoddiadau, ac yn cynnwys:

| | ***31 Mawrth %*** | ***31 Mawrth £'000*** | ***Adenillion Disgwyliedig ar yr Ased %*** |
|---|---|---|---|
| **2008** | | | |
| Buddsoddiadau ecwiti | 56.5 | 4,812 | 7.5 |
| Bondiau | 11.6 | 988 | 5.4 |
| Asedau eraill | 31.9 | 2,716 | 6.4 |
| **Cyfanswm** | | **8,516** | |
| **2007** | | | |
| Buddsoddiadau ecwiti | 63.4 | 4,980 | 7.5 |
| Bondiau | 12.4 | 974 | 5.4 |
| Asedau eraill | 24.2 | 1,902 | 6.4 |
| **Cyfanswm** | | **7,856** | |

Gellir dadansoddi'r symudiadau yn y diffyg net yn y pensiynau fel a ganlyn:

| | ***£'000*** | ***£'000*** |
|---|---|---|
| Diffyg net ar ddechrau'r flwyddyn | | -171,268 |
| Costau Cyfredol y Gwasanaeth | -5,478 | |
| Cyfraniadau | 2,806 | |
| Pensiynau a Dalwyd | 279 | |
| Addasiad ar gyfer Cyfri Cronfa Bensiwn | 1,232 | -1,161 |
| **Incwm Cyllid** | | |
| Adenillion ar Asedau | 550 | |
| Llog ar Ymrwymiadau Pensiwn | -9,716 | -9,166 |
| Enillion/(Colledion) Actiwaraidd | | 30,974 |
| **Diffyg Net yn y Pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn** | | **-150,621** |

Gellir dadansoddi'r enillion/colledion actiwaraidd ymhellach fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Gwir enillion a ddisgwylir ar Asedau Cronfa Bensiwn | (627) |
| Colled ar yr Asedau Pensiwn | 3,016 |
| Newid mewn Rhagdybiaethau | 28,585 |
| | ----------- |
| | 30,974 |
| | ----------- |

25. **<u>LLIF ARIAN – CYSONI Â'R CYFRIF INCWM A GWARIANT</u>**

| | ***2007/08 £'000*** | ***2006/07 £'000*** |
|---|---|---|
| Llif Mewnol Arian Net y Gweithgareddau Refeniw | -1,633 | -38 |
| **<u>SYMUDIADAU DI-ARIAN I'R CYFRIF INCWM A GWARIANT</u>** | | |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn Stoc | 14 | 8 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn Dyledwyr | -270 | -178 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn Taliadau ymlaen llaw | 18 | 72 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn Credydwyr | 986 | 148 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn Derbyniadau ymlaen llaw | -61 | -198 |
| Tâl Dibrisio | 964 | 834 |
| Taliadau Gohiriedig | -47 | 0 |
| Addasiad Pensiwn FRS17 | 10,327 | 9,608 |
| Taliad Amhariad | 273 | 0 |
| **<u>EITEMAU WEDI EU NODI YN UNIGOL AR Y DATGANIAD LLIF ARIAN</u>** | | |
| Llog a Dalwyd | 419 | 339 |
| Llog a Dderbyniwyd | -180 | -187 |
| Cyfraniad i/(o) Ddarpariaethau Amrywiol | 2 | -533 |
| Cyfraniad i/(o) Ddarpariaeth Ddyled Drwg | 0 | 8 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -3 | 0 |
| **DIFFYG (GWARGED) I'R CYFRIF INCWM A GWARIANT** | **10,809** | **9,883** |

26. **<u>CYSONI SYMUDIAD ARIAN A'R HYN SYDD GYFWERTH Â'R ARIAN</u>**

| | ***31 Mawrth 2008 £'000*** | ***31 Mawrth 2007 £'000*** |
|---|---|---|
| Arian yn y banc (gorddrafft) | 229 | 814 |
| Arian Symudol | 0 | 0 |
| Arian mewn Cyfrifon Imprest | -23 | -4 |
| **CYFANSWM** | **206** | **810** |
| **CYNNYDD MEWN ARIAN A'R HYN SYDD GYFWERTH** | **604** | |

## 27. CYSONI SYMUDIADAU MEWN ARIAN I'R SYMUDIADAU MEWN DYLED NET

| | ***Balans 31 Mawrth 2007 £'000*** | ***Lif arian Net £'000*** | ***Balans 31 Mawrth 2008 £'000*** |
|---|---|---|---|
| Balansau Ariannol | -810 | 604 | -206 |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 2,510 | 506 | 3,070 |
| Dyled yn ddyledus o fewn un Flwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| Dyled yn ddyledus ar ôl un Flwyddyn | -8,513 | -3,000 | -11,513 |
| | **-6,813** | **-1,890** | **-8,649** |

## 28. AWDURDODI DATGANIAD CYFRIFYDDU I'W GYHOEDDI

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifyddu i'w gyhoeddi gan yr Awdurdod Tân mewn cyfarfod a gynhaliwyd 22 Medi 2008. Mae digwyddiadau wedi'r Fantolen wedi eu hystyried hyd yma.

# CYFRI'R GRONFA BENSIWN

| *Cyfri Cronfa* | *2007/08 £000* |
|---|---|
| **INCWM** | |
| **Cyfraniadau sy'n Dderbyniadwy:** | |
| Cyfraniadau arferol Cyflogwyr | -2,129 |
| Taliad Iechyd Gwael Gweithwyr | -155 |
| Aelodau | -1,153 |
| Trosglwyddiadau i Mewn | 0 |
| **CYFANSWM** | **-3,437** |
| | |
| **GWARIANT** | |
| **Budd-daliadau Taladwy:** | |
| Taliadau Pensiwn | 3,946 |
| Cyfathrebu Pensiynau a budd-daliadau Un Taliad | 607 |
| **Taliadau i ac ar Ran Pobl sy'n Gadael:** | |
| Trosglwyddiadau allan | 0 |
| **CYFANSWM** | **4,553** |
| **SWM NET (TALADWY)/DERBYNIADWY CYN Y GRANT YCHWANEGOL** | **1,116** |
| Derbyn grant Ychwanegol gan WAG | -1,116 |
| **SWM NET (TALADWY)/DERBYNIADWY AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

| *Datganiad Asedau Net* | *2007/08 £000* |
|---|---|
| **Asedau ac Ymrwymiadau Cyfredol Net:** | |
| Ychwanegiad sy'n daladwy i WAG | 610 |
| Swm sy'n ddyledus o'r Gronfa Gyffredinol | -610 |
| **Asedau Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** |

**<u>Nodiadau i Gyfri'r Gronfa Bensiwn</u>**

Mae Cyfri'r Gronfa Bensiwn yn gyfrif newydd a sefydlwyd i adlewyrchu'r newidiadau i'r trefniadau cyllido ar gyfer pensiynau ymladdwyr tân dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân (Cymru) 2007. Sefydlwyd y gronfa ar 1 Ebrill 2007 ac mae'n delio a chynlluniau Pensiwn Ymladdwyr Tân 1992 a 2007 ac yn cael ei weinyddu gan yr Awdurdod. Mae cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn cael eu talu mewn i'r gronfa, y gwneir taliadau i bensiynwyr ohono. Mae lefel cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar gyfraddau tâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan WAG ac yn amodol ar ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cynllun wedi ei dangyllido heb unrhyw asedau buddsoddi a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y budd-daliadau sy'n daladwy a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy yn cael ei gyfarfod drwy Grant ychwanegol gan WAG.

**Cyfraddau Cyfraniadau**

Dan reoliadau pensiwn ymladdwyr tân roedd cyfraddau cyfraniadau ar gyfer cynllun 2007 yn cyfrifo am 19.5% o'r tâl pensiynadwy (11% cyflogwyr a 8.5% gweithwyr) ac ar gyfer cynllun 1992 roeddynt yn cyfrifo am 32.3% o'r tâl pensiynadwy (21.3% cyflogwyr a 11% gweithwyr). Talwyd cyfraniadau iechyd gwael ar gyfer ymladdwyr tân a oedd yn ymddeol oherwydd iechyd gwael yn 2005-2006 a 2006-2007, i'r gronfa bensiwn hefyd.

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Rydym wedi archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r datganiadau cyfrifyddu'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad Symudiadau ar Falans y Gronfa Gyffredinol, Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Datganiad Polisïau Cyfrifyddu.

Paratoir yr adroddiad hwn yn unig i Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol â Rhan 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac i ddim pwrpas arall, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 Datganiad Cyfrifoldebau Archwilwyr Penodedig, ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Adolygir (2005) a baratoir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Priod gyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Mae cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o safbwynt paratoi'r datganiad cyfrifyddu yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2007 wedi eu nodi yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifyddu.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon).

Adroddwn i chi ein barn ar p'un ai yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2007, sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Rydym yn adolygu p'un ai yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn cydymffurfio â'r 'Datganiad ar reolaeth fewnol mewn llywodraeth leol; yn cwrdd â gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003' a gyhoeddwyd gan CIPFA yn Ebrill 2004. Rydym yn adrodd os nad yw'n cydymffurfio ag arferion priodol a nodir gan CIPFA neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n harchwiliad. Nid yw'n rheidrwydd arnom i ystyried, ac nid ydym wedi ystyried, p'un ai a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolau. Nid yw'n rheidrwydd arnom chwaith i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rydym yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys yn unig y Rhagair Esboniadol. Rydym yn ystyried yr oblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw ein cyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio ac Adolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ymchwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau

cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn arbennig a wnaed gan yr Awdurdod wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu, a ph'un ai yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Awdurdod, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Rydym wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y credem oedd eu hangen er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau gwirioneddol, boed hynny oherwydd twyll neu anghysondeb neu wall arall. Wrth lunio ein barn, rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig

**Barn**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2007, sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2008 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**Tystysgrif**

Rydym yn tystio ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio ac Adolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru .

Bydd fy nghasgliad ar drefniadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008 yn cael ei adrodd ar wahân yn Llythyr Blynyddol cyhoeddedig y Rheolwr Perthynas.

Anthony Snow
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
Dyddiad